



## Swyddog Datblygu Cyd Ynni Swydd Ddisgrifiad

**Atebol i:** Grŵp Llywio Cyd Ynni

**Adrodd:** Rheolwr Datblygu Cyd Ynni

**Cyflog:** £25,000 y flwyddyn pro rata

**Lleoliad:** Bethesda

**Oriau:** Rhan amser - 21 awr/wythnos i'w weithio'n hyblyg

**Gwyliau:** 28 diwrnod gan gynnwys gwyliau cyhoeddus pro rata

Mae'r swydd hon yn gytundeb penodol am gyfnod o ddwy blynedd, wedi'i ariannu gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ac wedi'i chyflogi gan Datblygiadau Egni Gwledig (DEG).

### Y Swydd

Gweithio i leihau ein cyfraniad at newid hinsawdd, cynyddu perchnogaeth cymunedau o'u hadnoddau naturiol, grymuso unigolion i weithredu dros eu cymunedau, a cadw arian o fewn yr economi leol.

Prif pwrpas y swydd hon yw cyfrannu at amcanion Cyd Ynni, sef gweithio gyda grwpiau ynni cymunedol i leihau defnydd ynni yn yr ardal, manteisio ar ddulliau newydd o gyflenwi trydan yn lleol a chodi ymwybyddiaeth o'r prosiect a materion ynni glân o fewn ein cymunedau.

Rydym yn chwilio am unigolyn brwdfrydig a chreadigol sy'n gallu ysgogi a chyfarwyddo ei hun. Mae'r person yma angen sgiliau cyfathrebu da a dyfalbarhad, er mwyn gallu ysgogi ac ysbrydoli eraill mewn maes sy'n newid yn sydyn. Mae'r parodrwydd i ddysgu, a'r awydd i dreialu dulliau newydd o weithio, hefyd yn bwysig.

### Y Prosiect

Mae prosiect Cyd Ynni yn gonsortiw o 5 grŵp ynni cymunedol yng ngogledd Eryri. Mae'r grwpiau yma yn rhai llwyddiannus, sydd wedi darparu nifer o brosiectau ynni cymunedol adnabyddus ac arloesol. Y 5 grŵp sy'n rhan o Cyd Ynni yw: Ynni Anafon, Ynni Padarn Peris, Ynni Ogwen, Egni Mynydd ac Ymlaen Moelyci.

Mae Datblygiadau Egni Gwledig (DEG) yn gwmni budd cymunedol. Mae'n cefnogi gweithgareddau dan arweiniad cymunedau ar draws gogledd-orllewin Cymru i gynyddu gallu ein hardal i ymdopi â chostau cynyddol tanwyddau ffosil a gwella ein hamgylchedd naturiol. Mae DEG wedi derbyn cyllid gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol i ddatblygu'r prosiect Cyd Ynni mewn partneriaeth â'r 5 grwp.

Mae prosiect Cyd Ynni yn peilota arddull newydd tuag at ddatblygiad cymunedol trwy gydweithio ar draws cymunedau. Mae modd i ni ddarparu prosiectau ynni tu hwnt i gwmpas cymunedau unigol trwy weithio gyda'n gilydd. Prif amcanion y prosiect yw:

1. Hwyluso prosiectau ynni adnewyddadwy newydd;
2. Datblygu rhwydwaith mannau gwefru ceir trydan;



3. Datblygu dulliau newydd o gyflenwi trydan yn lleol;
4. Rhannu gwasanaethau rhwng y 5 grwp;
5. Gweithredu prosiectau arbed ynni;
6. Addysg ac estyn allan

## Prif Gyfrifoldebau

### 1. Rheoli Prosiect

- Cyd-weithio â Rheolwr Datblygu Cyd Ynni, a'r 5 grŵp, i weithredu cynllun gwaith Cyd Ynni, gan sicrhau bod targedau'n cael eu cyflawni a bod y gwasanaeth a ddarperir o'r safon uchaf;
- Adnabod dulliau newydd o gyflenwi cwsmeriaid lleol gyda thrydan o ffynhonnellau lleol, megis model rhith-rwydwaith Ynni Lleol (Energy Local), ac eraill;
- Gwireddu cyfleoedd i ddarparu prosiectau arbed ynni ar draws ardal Cyd Ynni. Bydd yn hyn yn cynnwys amryw o ddulliau gwahanol megis digwyddiadau cyhoeddus, cyngor un-i-un, ac ymweliadau i safleoedd o ddiddordeb;
- Cynnal perthynas gydag ysgolion lleol i gynnal gweithgareddau addysgol;
- Cynnal perthynas weithio gynhyrchol gyda rhanddeiliaid. Mae rhain yn cynnwys y 5 grwp sy'n rhan o Cyd Ynni, Ynni Cymunedol Cymru, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, asiantaethau a mudiadau datblygu cymunedol ac economaidd, awdurdodau lleol, cyflenwr ynni trwyddedig, ac eraill;
- Cynnal ymwybyddiaeth o ddatblygiadau a chyfleon newydd yn y maes a allai fod yn fanteisiol i'r prosiect;

### 2. Marchnata

- Hyrwyddo digwyddiadau a threfnir, er mwyn denu nifer uchel o fynychwyr;
- Hyrwyddo gwaith prosiect Cyd Ynni, a'r 5 grŵp sy'n rhan ohono, i godi ymwybyddiaeth o fewn ein cymunedau;
- Darparu cynnwys cyfredol ar gyfer tudalen wê newydd y prosiect a sianeli cyfryngau cymdeithasol.

### 3. Rheoli Perfformiad

- Sicrhau agwedd rhagweithiol tuag at gydraddoldeb ac amrywiaeth, gan sicrhau amgylchedd weithio hygyrch a chynhwysol;
- Casglu gwybodaeth a data sy'n berthnasol i ofynion y gwaith;
- Monitro allbynnau'r prosiect yn fanwl, gan ddarparu adroddiadau cynnydd i'r Rheolwr Datblygu Cyd Ynni;
- Gweithio'n agos gyda'r Rheolwr Datblygu Cyd Ynni i fonitro a gwerthuso ansawdd a darpariaeth gwasanaeth, gan sicrhau bod targedau perfformiad yn cael eu cyrraedd a bod gwasanaethau'n cael eu gwella'n barhaus;
- Diweddarau'r Grŵp Llywio yn rheolaidd ar gynnydd gwaith a trafod eu gofynion;
- Cyfrannu at geisiadau ariannol fel bo'r angen.

### 4. Iechyd, Diogelwch a Lles

- Dangos ymrwymiad rhagweithiol i Bolisi Iechyd a Diogelwch DEG;

- Rheoli cydymffurfiaeth â phob agwedd o lechyd a Diogelwch, gan gymryd unrhyw gamau rhesymol i sicrhau amgylchedd gwaith sy'n iach ac yn ddiogel;
- Sicrhau bod Asesiadau Risg yn cael eu cwblhau fel bo'r angen.

#### 5. Arall

- Sicrhau bod strategaethau a pholisïau DEG yn cael eu hymgorffori yn narpariaeth y prosiect.
- Dangos ymrwymiad rhagweithiol i Bolisi Iaith Gymraeg, Polisi Amgylcheddol a chod eco DEG;
- Sicrhau bod arferion casglu, storio a defnyddio data a gesglir ar gyfer DEG a Cyd Ynni yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998 a deddfwriaeth gysylltiedig;
- Derbyn dyletswyddau a chyfrifoldebau eraill fel bo'r angen;
- Cynrychioli DEG a Cyd Ynni fel bo'r angen.

## MANYLEB PERSON

	Hanfodol	Dymunol
<b>Cymwysterau</b>		
Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus mewn maes perthnasol	✓	
Addysg hyd lefel Gradd, neu gymhwyster cyfwerth, mewn pwnc perthnasol		✓
Cymhwyster perthnasol megis Ymwybyddiaeth a Chyngor Ynni a/neu Aseswr Ynni Domestig, neu gyfwerth		✓
<b>Profiad</b>		
Profiad o ddarparu cyngor ynglŷn ag ynni a/neu ddatblygiad cymunedol	✓	
Profiad o weithio ar sail un i un i asesu a deall gofynion gwasanaeth a thrafod gwybodaeth sensitif	✓	
Profiad o ymdrin â chyrrff statudol mewn perthynas â darparu prosiect		✓
Profiad o weithio'n unigol mewn lleoliadau anghysbell		✓
<b>Sgiliau a Gwybodaeth</b>		
Gallu cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg	✓	
Gallu datblygu perthynas a rhwydweithiau cynhyrchiol ar lefelau gwahanol gydag amrediad o rhanddeiliaid, cyrff ac asiantaethau	✓	
Sgiliau dadansoddol da, gyda'r gallu i ddadansoddi data rhifyddol a chyflwyno canlyniadau fel bo'n briodol	✓	
Gallu cymell ei hun, a derbyn cyfrifoldeb dros osod ac adolygu blaenoriaethau ar gyfer cyflawni targedau, gyda ffocws clir ar ansawdd	✓	
Gallu gweithio'n effeithiol yn annibynnol ac fel rhan o dîm	✓	
Sgiliau cyfathrebu ardderchog, ar lafar ac yn ysgrifenedig, a'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol gydag amrediad eang o bobl	✓	
Dealltwriaeth, ac ymrwymiad i, gyfle cyfartal	✓	
Gwybodaeth a diddordeb mewn datblygiad cymunedol ac ynni adnewyddadwy	✓	
Dealltwriaeth dda o egwyddorion a chymwyseddau marchnata a chyfathrebu, gan gynnwys cyfryngau digidol		✓
Gallu hwyluso digwyddiadau gyda sawl rhanddeiliaid		✓
Ymwybyddiaeth o gyd-destun cymdeithasol, gwleidyddol ac amgylcheddol maes Cyd Ynni		✓
Sgiliau rheoli cyllideb sylfaenol, gan gynnwys gwariant amserol a chost effeithiol o gyllidebau		✓
<b>Arall</b>		
Sgiliau TG o ansawdd uchel, gan gynnwys MS Office, PowerPoint, Excel a/neu Google Drive	✓	
Ymrwymiad i sicrhau bod gweithgareddau personol yn cyd-fynd â nodau amgylcheddol cyffredinol DEG a lleihau effaith negyddol ar yr amgylchedd	✓	
Parodrydd i weithio tu allan i oriau gwaith arferol	✓	
Trwydded yrru lân a defnydd o gar (i allu cyrraedd safleoedd anghysbell)	✓	



## GWYBODAETH YCHWANEGOL

Gwneir pob cynnig swydd yn amodol ar dderbyn prawf o ganiatâd i weithio yn y DU a derbyn geirdaon boddhaol.

Mae'n rhaid i bob ymgeisydd fodloni gofynion 'hawl i weithio' y DU. Os oes arnoch angen caniatâd y Swyddfa Gartref i weithio yn y DU, neu angen newid statws eich visa i ymgymryd â'r swydd hon, noder os gwelwch yn dda, wedi i'r Llywodraeth gyflwyno cyfyngiadau ar weithwyr medrus, rydym yn argymhell y dylech ddefnyddio'r ddolen ganlynol yn ymwneud â llwybrau i gyflogaeth a gwirio gofynion cymhwysedd: <http://www.ukba.homeoffice.gov.uk/workingintheuk>

## Gwneud Cais

Gallwch ymgeisio am y swydd hon drwy anfon eich CV a llythyr eglurhaol at [gareth@deg.cymru](mailto:gareth@deg.cymru).

Ar ôl darllen y Swydd Ddisgrifiad a'r Manyleb Person yn ofalus, dylai eich llythyr egluro pam eich bod yn credu eich bod yn addas ar gyfer y swydd, gan roi sylw penodol i unrhyw gymwysterau, gwybodaeth, sgiliau a gwybodaeth berthnasol, yn ogystal â'ch rhesymau dros ymgeisio.

Mae croeso hefyd i chi gynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol y teimlwch y gallai fod o fantais i'ch cais.

Lle bo'n briodol, dylai eich CV amlinellu'r canlynol:

- manylion personol (enw, cyfeiriad, rhif ffôn cyswllt a/neu gyfeiriad e-bost)
- addysg a chymwysterau
- aelodaeth o gyrff proffesiynol
- swydd bresennol
- swyddi blaenorol
- profiad perthnasol
- enw, cyfeiriad a chyfeiriad e-bost 2 ganolwr: eich cyflogwr mwyaf diweddar a rhywun a fyddai'n gallu darparu geirda cymeriad.

Os hoffech sgwrs anffurfiol ynglŷn â'r swydd hon, cysylltwch â Gareth Harrison, Rheolwr Datblygu Cyd Ynni ar 07787 533961

## Cyfweliadau

Cynhelir cyfweliadau ar gyfer y swydd hon ym Methesda, ar ddydd Mawrth, y 7fed o Fai 2019.

## Dyddiad Cau

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw: dydd Iau, y 25ain o Ebrill 2019 am 12:00 (ganol dydd)

## Polisi Cyfle Cyfartal

Cysylltwch â ni os ydych yn dymuno derbyn copi o'n Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (naill ai drwy gysylltu ar 07787 533961 neu anfon e-bost at [gareth@deg.cymru](mailto:gareth@deg.cymru)).

